

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddïau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Mairwen Morris (Nantglyn) gafodd lawdriniaeth yno ddiwedd yr wythnos. Anfonwn ein cofion ati gyda'n dymuniadau am adferiad buan. Yno hefyd y mae Edith Maloney (Henllan) a Haf Williams a Megan Evans (Llansannan). Hyderwn y bydd y tair ohonynt hwythau'n teimlo'n well yn fuan iawn ac y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Wedi cyfnod reit faith mewn gwahanol ysbytai, mae Gwyneth Rawson (Llanfair) wedi mynd i gartref gofal Woodcroft yn Hen Golwyn. Diolchwn am y gofal y mae hi wedi ei dderbyn dros y misoedd diwethaf, a gweddiwn y bydd yn profi gofal a chariad Duw yn ei hamgylchynu wrth iddi setlo yno.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Kitty Parry (Llanefydd) fydd yn dathlu ei phenblwydd yn go oed dydd Mawrth. Diolchwn i Dduw amdani, gan hyderu y bydd yn parhau i gael nerth ac iechyd.

Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a'r Ysgol Sul

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n paratoi y Gwaith Cwrs a osodwyd gan yr Henaduriaeth ac a gafodd eu gwobrwyo yn Llansannan wythnos i nos Wener. Diolchwn am y rhai sy'n dysgu'r plant a'r oedolion yn yr Ysgolion Sul, a chodwn hwy yn ein gweddïau o ddiolchgarwch i Dduw.

Diolch o galon hefyd i aelodau Llansannan a phawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i estyn croeso i'r Henaduriaeth.

I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan colegybala.org neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk.

RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:

- ⇒ **Cwrs Ieuenticid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
- ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
- ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Mai 2018

Darlleniad y Dydd

Salm 117

(BCND tud.559 / BCN tud.510)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Dewch i ni gymryd munud i roi gweddi o foliant i'r Arglwydd heddiw cyn mynd ymlaen gyda'n bywydau. Dewch i ni ystyried mawredd Duw a'r ffaith ei fod wedi dod yn berson o gig a gwaed a marw ar groes yn ein lle ni.

Mae darlleniad heddiw yn troi ein meddyliau at fawl. “*Molwch yr Arglwydd, chi genhedloedd i gyd! Canwch fawl iddo, holl bobloedd y byd!*” (Salm 117:1). Pa mor aml ydym ni wir yn addoli? Wrth i ni ganu emynau neu gytganau, tybed sawl gwaith mae ein meddyliau ni'n mynd i rywle arall: Sut mae fy llais yn swnio? Ydw i mewn tiwn? Pam fod yr organydd wedi dewis tŷn anghyfarwydd? Pam bod ni'n ei chanu hi mor araf neu mor gyflym? Beth mae'r gair yna'n ei olygu? Beth sydd i ginio? Mae yna lwyth o feddyliau gwahanol yn mynd a dod wrth i ni ganu emynau yn does? Felly, pa mor aml ydym ni wir yn addoli? Rŵan, efallai fod rhai o'n meddyliau / cwestiynau ni yn ddilys – nid pob emyn sy'n ddealladwy erbyn heddiw, efallai fod angen esbonio'r geiriau ychydig yn well cyn eu canu nhw – ond mae'n rhaid i ni gael ychydig o ddisgyblaeth wrth addoli. Mae emynau a chytganau, ynghyd â'u cyfeiliant weithiau, yn gallu cyfleu pethau na allem ni ei wneud ein hunain.

Dwi'n hoff iawn o eiriau'r gytgan “Tyrd, dyma dy gyfle i foli... tyrd, tyrd fel yr wyt i foli”. Mae moliant yn fraint i ni! Mae addoli Duw yn rhywbeth rhyfeddol i ni fanteisio arno ar bob cyfle. Sylwch o Salm 117:2 pam fod y bobl yn moli Duw: “*Mae ei gariad aton ni mor fawr! Mae'r Arglwydd bob amser yn ffyddlon.*” Nid addoliad dirswm neu ryw ewfforia ysbrydol ydy hwn, ond mawl wedi ei ganoli ar ba mor rhyfeddol ydy ein Duw. Mor garedig a thrugarog ydy o tuag atom ni sy'n troi ein cefnau arno. Mor bwerus ydy ei gariad tuag atom ni, fel llifddwr bwerus yn llifo i mewn i bob rhan o'n bywydau pan da ni'n troi ato mewn gweddi ac edifeirwch. Dyma'r Duw sydd wedi addo bod achubiaeth yn dod i bobl y byd a ninnau rŵan yn medru tystiolaethu fod hynny'n wir!

Efo'r gwirioneddau hyn mewn cof, sut allwn ni gyfyngu ein mawl i ddydd Sul yn unig? Mae Rhufeiniaid 12 yn dweud mai'r ymateb briodol i drugaredd a chariad yr Arglwydd ydy i ni roi ein hunain fel aberth byw, hynny ydy, fod ein bywyd cyfan yn addoliad iddo. Dewch i ni fynd heddiw yn cyhoeddi ac yn byw fel mae'r Salm yn gorffen: *Haleliwia*, yn llythrennol *molwch yr Arglwydd yn llawen*.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Timotheus 4:16-18 (BCND tud.236 / BCN tud.216)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 20^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 22^{ain} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid y Fro** yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7.30.
- Iau – 24^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Noson arbennig i sgwrsio hefo criw o Gristnogion o Oaklahoma sydd ar genhadaeth yng Nghymru** yn y Granar, Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7.00.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Rhagrybudd ➤ Yn ystod oedfa'r prynhawn yng Nghefn Meiriadog ar Mehefin 10^{fed}, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Canser y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.
- Mawrth – 22^{ain} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Bydd aelodau Nantglyn yn ymuno yn y Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, pryd defnyddir Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Canser y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.
- Mercher – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (20^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Henllan a Groes

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Canser y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.